

# Sgiliau Arfarnwr: Delio â Gwahaniaethu

## Beth yw Gwahaniaethu?

Nod y daflen ffeithiau hon yw rhoi'r sgiliau a'r hyder i Arfarnwyr fynd i'r afael â Meddygon a'u cefnogi pan godir Gwahaniaethu mewn arfarniad.

Gwahaniaethu yw pan fydd rhywun yn cael ei drin yn annheg am unrhyw un o'r rhesymau hyn:

- oedran
- anabledd
- newid rhyw
- priodas neu bartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil (gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig a chenedlaethol)
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

Gelwir y rhain yn 'nodweddion gwarchodedig' o dan y gyfraith (Deddf Cydraddoldeb 2010). Mae gwahaniaethu ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig hyn fel arfer yn erbyn y gyfraith.

Mae 4 prif fath o Wahaniaethu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: Anuniongyrchol, Uniongyrchol, Aflonyddu ac Erledigaeth.

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y BMA.



**Adnoddau Pellach:**

- **The BMA -** Discrimination advice for doctors (bma.org.uk)
- **Y Comisiwn yng Nghymru -** Y Comisiwn yng Nghymru | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (equalityhumanrights.com)
- **Cyngor ar Bopeth -** Gwahaniaethu yn y Gwaith - Cyngor ar Bopeth
- **Equality Advisory & Support Service -** Equality Advisory and Support Service (equalityadvisoryservice.com)
- **The GMC -** Racism in the workplace - GMC (gmc-uk.org)

## Rôl a Chyfrifoldeb yr Arfarnwr

Cefnogi meddygon i ddarparu gofal cleifion o ansawdd da trwy annog DPP â ffocws, ymdrechion i liniaru cyfyngiadau ac yna cynllunio dysgu.

Mae gwahaniaethu yn gyfyngiad sylweddol ac felly mae adnabod, cydnabod a thrafod hyn yn gyfrifoldeb arfarnu.

## Cydnabyddiaeth a Chefnogaeth

**Paratoi**

- Paratoi ar gyfer y drafodaeth cyn cyfarfod y meddyg, bod yn barod i wrando ac annog y meddyg i siarad.
- Ystyriwch gwestiynau i'w gofyn yn ogystal â phrofiadau i'w rhannu.
- Ystyriwch geisio cyngor pellach gan eich Cydlynydd/Arweinydd Arfarnu cyn y drafodaeth arfarnu.

Darllen pellach: [Appraisal preparation (heiw.wales)]

**Y Drafodaeth**

Ystyriwch strwythur a allai gadw'r drafodaeth i ganolbwyntio ar y meddyg ond bydd angen i'r arfanwr a'r meddyg ddatrys yr atebion ill dau.

Er enghraifft, awgrymodd Cecil Helman, anthropolegydd, fod claf â phroblem yn dod at y meddyg i ofyn am atebion i chwe chwestiwn. Gellid defnyddio'r strwythur hwn ar gyfer eich trafodaeth arfarnu gyda'r meddyg:

- **Beth sydd wedi digwydd?**
- **Pam ei fod wedi digwydd?**
- **Pam ei fod wedi digwydd i mi?**
- **Pam ei fod wedi digwydd nawr?**
- **Beth ddylwn i ei wneud yn ei gylch neu at bwy y dylwn droi am gymorth pellach?**
- **Beth fydd yn digwydd os na wnaf ddim byd amdano?**

## Gweithredu Posibl

Bydd hyn i'r meddyg naill ai ddewis gwneud dim byd neu wneud rhywbeth, ond gan ystyried canlyniadau'r naill weithred neu'r llall.

Ein pryder yw'r meddyg a'u cleifion ac nid ymgyrchu i gywiro camweddau sefydliadol ond cefnogi'r meddyg os dewisant y llwybr hwn.

Ystyriwch uwchgyfeirio hyn a'i drafod gyda'ch Cydlynydd/Arweinydd Arfarnu.

**Dysgu Pellach:**

**Mae modiwl ar wahaniaethu hefyd ar gael ar y Cofnod Staff Electronig (ESR) a allai fod yn ddefnyddiol i chi hefyd:**

**000 NHS Wales - Treat Me Fairly (Equality) - Level 1**

**I fewngofnodi i'r ESR, cliciwch ar y ddolen hon - [Home - ESR Hub - NHS Electronic Staff Record]**

**Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch gyda'r ESR, cysylltwch â desg gymorth yr ESR drwy esrhub.wales@wales.nhs.uk**



GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) | Health Education and Improvement Wales (HEIW)